# Taflen Ffeithiau Llinell Faethu Cymru
# Pan Fydda i'n Barod

## Rhagymadrodd

Mae Pan Fydda i'n Barod yn wasanaeth gan Lywodraeth Cymru ar gyfer pobl 18 i 21 mlwydd oed (hyd at 25 oed os yn dal mewn addysg amser llawn) sydd eisiau parhau i fyw gyda'u cyn-ofalwr maeth. Mae'n rhaid i'r gofalwr maeth gytuno, ac mae'n rhaid iddo gael ei gymeradwyo a'i gofrestru fel gofalwr maeth naill ai gyda'i awdurdod lleol neu gydag asiantaeth annibynnol ar ben-blwydd y person ifanc yn 18 oed. Mae'n rhaid i'r person ifanc fod wedi bod mewn gofal am fwy na 13 wythnos ers eu penblwydd yn 14 oed ac mae'n rhaid iddynt fod mewn gofal maeth ar eu penblwydd yn 18 oed.

## Pam mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Pan Fydda i'n Barod

Mae'r rhan fwyaf o oedolion ifainc yn byw gartref ar ôl eu pen-blwydd yn 18 oed. Maent yn elwa o'r sefydlogrwydd, y gefnogaeth barhaus a'r cyfle i ddatblygu'u sgiliau byw'n annibynnol. Mae Pan Fydda i'n Barod yn caniatáu i bobl sy'n gadael gofal elwa yn yr un ffordd drwy aros gyda'u teulu maeth. Y bwriad yw bod pobl sy'n gadael gofal yn cael eu cyfarparu'n well ar gyfer bywyd oedolion, cyn iddynt symud ymlaen i annibyniaeth. Mae'n gynllun nid dim ond ar gyfer pobl ifanc mewn addysg amser llawn.

## Pwy a all ddefnyddio Pan Fydda i'n Barod?

O dan adran 208 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mae yna ddyletswydd ar awdurdodau lleol i ganfod, fel rhan o'r asesiadau a'r cynllunio llwybrau, p'un a yw person ifanc a'i ofalwr(wyr) maeth yn dymuno gwneud trefniant Pan Fydda i'n Barod.

Gall person ifanc ond defnyddio Pan Fydda i'n Barod os:

- oeddynt mewn lleoliad maethu gyda gofalwr maeth oedd wedi'i gymeradwyo a'i gofrestru ar eu 18$^{fed}$ pen-blwydd
- yw'r gofalwr maeth hwnnw'n cytuno i drefniant Pan Fydda i'n Barod

Gall oedolion ifainc anabl ddefnyddio Pan Fydda i'n Barod. Fodd bynnag, os bydd arnynt angen gofal a chymorth dros yr hirdymor o fewn teulu, fe all cynllun Cysylltu Bywydau fod yn fwy priodol.

## A yw'r lleoliad maeth yn parhau ar ôl 18$^{fed}$ pen-blwydd y person ifanc?

Yn gyfreithiol, nac ydyw. Ar 18$^{fed}$ pen-blwydd y person ifanc, fe ddônt yn gyfreithiol yn berson sy'n gadael gofal. Mae ganddynt hawl i gefnogaeth fel person sy'n gadael gofal ac fe fydd ganddynt gynghorydd personol a chynllun llwybr. Daw'r gofalwr

maeth yn gyfreithiol yn ‘gyn-ofalwr maeth’ iddynt, ac fe ddaw'r lleoliad maeth yn ‘drefniant Pan Fydda i’n Barod’ ac fe adwaenir y cyn-ofalwr maeth fel gofalwr Pan Fydda i’n Barod. Ni chaiff cytundebau Pan Fydda i’n Barod eu rheoli gan reoliadau neu ddeddfwriaeth faethu. Mewn trefniant ‘Pan Fydda i’n Barod’, fe ddaw’r gofalwr yn ‘landlord’ i’r person ifanc ac mae’r oedolyn ifanc yn ‘drwyddedai eithriedig’. Gellir gofyn i ‘drwyddedai eithriedig’ adael yr eiddo heb fod yn rhaid i’r gofalwr ymgeisio am rybudd troi allan.

Mewn termau ymarferol, ychydig o wahaniaeth fydd yna gan y bydd yr oedolyn ifanc yn dal i fod yn rhan o’r teulu. Bydd gennych gytundeb cyd-fyw sy’n disodli’r cytundeb lleoliad ac sy’n amlinellu disgwyliadau ar eich cyfer chi ac ar gyfer yr oedolyn ifanc. Gellir dal unrhyw grant gadael gofal yn ôl hyd nes y bydd y cytundeb Pan Fydda i’n Barod yn gorffen.

**Pethau i’w hystyried cyn cytuno i drefniant Pan Fydda i’n Barod**
***Telerau ac amodau Pan Fydda i’n Barod***
**Wrth ystyried yr addasrwydd a’r ymrwymiad o ddod yn ofalwr Pan Fydda i’n Barod, gofynnwch i’r awdurdod lleol ddarparu manylion ysgrifenedig llawn ichi am sut mae’r cynllun yn gweithio, y taliadau a chyfrifoldebau’r gofalwr Pan Fydda i’n Barod.**

***Bod ag oedolyn arall ar yr aelwyd***
Bydd arnoch angen gwirio bod eich landlord neu ddarparwr eich morgais yn fodlon ichi gael lletywr. Bydd arnoch angen hefyd dweud wrth eich yswirwyr bod yna oedolyn nad yw’n perthyn ichi yn byw gyda chi.

Os yw’r oedolyn ifanc yn agored i niwed ac rydych chithau’n darparu gofal personol, fe fydd arnoch angen gwiriad manwl gan Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer oedolion.

Os ydych yn parhau i faethu, fe fydd ar yr oedolyn ifanc angen gwiriad Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer plant. Byddwch yn ymwybodol y bydd gan rai oedolion ifainc wybodaeth ar eu gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd sy’n ei gwneud hi’n anodd neu’n amhosibl i chi barhau i gael lleoliadau maethu yn eich cartref ar yr un pryd â chytundeb Pan Fydda i’n Barod.

***A fyddwch yn parhau i faethu yn ogystal?***
**Nid** lleoliad maeth yw trefniant Pan Fydda i’n Barod. Os nad ydych yn bwriadu cael rhagor o leoliadau maeth yn y dyfodol, fe fydd arnoch angen gwirio beth fyddai’n digwydd i’ch cofrestriad maethu gyda’ch asiantaeth.

Os ydych yn aelod o’r Rhwydwaith Maethu ac nad ydych mwyach wedi’ch cofrestru fel gofalwr maeth oherwydd eich bod ond yn darparu trefniant Pan Fydda i’n Barod, **mae’n bwysig ystyried ymaelodi fel gofalwr maeth wedi ymddeol cyn i’ch cofrestriad fel gofalwr maeth orffen,** i sicrhau eich bod yn dal i gael eich diogelu gan y sicrwydd yswiriant cyfreithiol rhag ofn unrhyw honiadau hanesyddol neu gyhuddiadau o’r adeg roeddech yn ofalwr maeth.

***Cyllidau***
Mae canllawiau Llywodraeth Cymru i awdurdodau lleol yn datgan y dylai gofalwyr Pan Fydda i'n Barod dderbyn o leiaf yr un cymorth ariannol â'r isafswm lwfans maethu cenedlaethol. Daw rhywfaint neu'r cyfan o hyn oddi wrth yr awdurdod lleol. Efallai y disgwylir i'r oedolyn ifanc gyfrannu'n ariannol, drwy fudd-daliadau a/neu gyflogau.

Fe gewch eich categoreiddio fel hunangyflogedig. Os gwnaethoch dderbyn gostyngiad treth cymwys fel gofalwr maeth, fe wnewch barhau i'w gael, mewn perthynas ag arian rydych yn ei dderbyn drwy'r cytundeb Pan Fydda i'n Barod.

Os ydych yn derbyn Budd-dal Tai neu elfen dai Credyd Cynhwysol, fe gategoreiddir yr oedolyn ifanc fel oedolyn nad yw'n ddibynnol.

Ar gyfer budd-daliadau ar sail prawf modd, fe anwybyddir unrhyw arian a gewch gan yr awdurdod lleol, ond fe gaiff unrhyw arian a gewch gan yr oedolyn ifanc ei drin fel incwm.

## Gwirio a monitro'r cytundeb cyd-fyw
Mae ar bob awdurdod lleol angen dweud, yn ei bolisi Pan Fydda i'n Barod, sut y caiff cytundebau'u monitro, eu hadolygu a'u diwygio, os cytunir i ymestyn y cytundeb. Gweler Cwestiynau Cyffredin (Adnoddau) Y Rhwydwaith Maethu.

*Beth sy'n digwydd yn ystod gwyliau os yw'r person ifanc yn byw i ffwrdd mewn prifysgol?*
Caiff hyn ei anfon allan ym mholisi Pan Fydda i'n Barod yr awdurdodau lleol, ac fe ddylid wedyn ei gadarnhau yn y cytundeb cyd-fyw.

## Pwy *na all* ddefnyddio Pan Fydda i'n Barod
Ni chaiff pobl ifanc ddefnyddio Pan Fydda i'n Barod os oeddynt, ar eu pen-blwydd yn 18 oed, mewn:
- gofal preswyl
- gofal maeth preifat, neu ofal anffurfiol gan berthynas
- sefydliad troseddwyr ifainc

Os yw oedolyn ifanc yn gadael ei drefniant Pan Fydda i'n Barod, ni all ddychwelyd o dan Pan Fydda i'n Barod. Fe all, fodd bynnag, ddychwelyd o dan y rheolau ar gyfer Lletyau Cynaledig. Nid yw'r rheol hon yn gymwys os ydynt i ffwrdd yn ystod tymor yr ysgol, oherwydd eu bod mewn addysg amser llawn.

## Adnoddau
Canllaw Arfer Da Llywodraeth Cymru
[gov.wales/docs/dhss/publications/160307guidanceen.pdf](gov.wales/docs/dhss/publications/160307guidanceen.pdf)

Canllaw Y Rhwydwaith Maethu
[thefosteringnetwork.org.uk/policy-practice/practice-information/when-I-am-ready](thefosteringnetwork.org.uk/policy-practice/practice-information/when-I-am-ready)

Cwestiynau Cyffredin Y Rhwydwaith Maethu ar gyfer asiantaethau maethu
thefosteringnetwork.org.uk/sites/www.fostering.net/files/public/resources//wir_faq_final_version.pdf

Gallwch gael gwybodaeth annibynnol ar-lein am fudd-daliadau oddi ar:
www.entitledto.co.uk/help/non-dependants
www.citizensadvice.org.uk/wales/

## Sut y gall Y Rhwydwaith Maethu helpu

Mae'r Rhwydwaith Maethu yn cynnig cyngor, gwybodaeth a chefnogaeth. Mae ein harbenigedd a'n gwybodaeth bob amser yn hollol gyfoes ac ar gael trwy'n llinellau cymorth hanfodol i aelodau, ein cyhoeddiadau, ein hyfforddiant a'n gwasanaeth ymgynghori.

**Cyngor**
Llinell Faethu Cymru
Ffoniwch ni ar 0800 316 7664 rhwng 9.30yb - 12.30yp o ddydd Llun i ddydd Gwener. Os ffoniwch ar adegau eraill, gadewch neges, os gwelwch yn dda, ac fe wna rhywun eich ffonio yn ôl cyn gynted â phosibl.

Gallwch anfon e-bost atom neu ysgrifennu atom yn:
Fosterlinewales@fostering.net
Rhwydwaith Maethu Cymru
33 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9HB.

**Cymorth ac Adnoddau**
Mae ein gwefan yn ffynhonnell hanfodol o wybodaeth, tra bod ein cymuned ar-lein yn dod â gofalwyr maeth ynghyd am gynghorion a chefnogaeth gan gymheiriaid. Gallwch fewngofnodi i rannu'ch profiad a chael cyngor gan ofalwyr maeth eraill. Mae ein cymuned ar-lein yn fan diogel a dibynadwy i drafod materion gofal maeth.
thefosteringnetwork.org.uk

**Hyfforddiant a Gwasanaeth Ymgynghori**
Lle bynnag rydych yn eich gyrfa faethu, fel gofalwr maeth, gweithiwr cymdeithasol neu reolwr, mae gan Y Rhwydwaith Maethu ystod o hyfforddiant sydd wedi'i gynllunio i ddiwallu'ch anghenion datblygu.

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â'n rheolwr dysgu a datblygu, Sarah Mobedji, yn sarah.mobedji@fostering.net

**Ynglŷn â'r Rhwydwaith Maethu**
Y Rhwydwaith Maethu yw prif elusen faethu'r Deyrnas Unedig, sy'n dod â phawb ynghyd sy'n gysylltiedig â bywydau plant wedi'u maethu i wneud gofal maeth y gorau un y gall fod.

**Cysylltu**

I ganfod mwy o wybodaeth am ein gwaith yng Nghymru, cysylltwch, os gwelwch yn dda, â:

Rhwydwaith Maethu Cymru
33 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9HB.

Ffôn: 029 2044 0940
E-bost: wales@fostering.net
Gwe: thefosteringnetwork.org.uk

Canfyddwch ni ar Facebook: facebook.com/thefosteringnetwork
Dilynwch ni ar Twitter: @fosteringnet
Dilynwch ni ar Instagram: @fosteringnet

/thefosteringnetwork @fosteringnet

© Y Rhwydwaith Maethu 2017